**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 8fed Hydref 2024 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Is-Gaderiydd yn cadeirio yn absenoldeb y Cadeirydd), Gerwyn Owen, Johnny Davies, Alan Henson, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies , Harry Williams

1. **YMDDIHEURIADAU** Cyng. Hywel Glyn, Melinda Willaims, Daniel Evans

2. **PERSONOL**
   Estynwyd cydymdeimlad i'r Cyng. Melinda Williams gollodd ei modryb yn ystod mis Medi.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL**
   i. Cynllunio A240696 Trewern Y Cyngh. Alan Henson a Glyn Davies.

4. **CADARNHAU COFNODION 03/09/024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Johnny Davies a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

   **11.b (Mehefin). Boncyff Cribyn (641463).** Derbyniwyd neges gan y Cyngor Sir yn dweud ei fod wedi cynnal archwiliad o'r safle a chadarnhawyd "nad cyfrifoldeb y Cyngor yw hyn ond y tirfeddianwyr i'w gynnal".

   **10.i (Gorffennaf) Camera Cyflymder.** (**666357**) Derbyniwyd neges gan John Williams o Go Safe Heddlu Dyfed Powys yn dweud ei fod wedi gwneud arolwg yng Nghribyn ar y 11eg Medi. Yn ogystal ag arolwg cyflymder tynnodd sylw at anaddasrwydd yr arwyddion ac wedi paratoi adroddiad uniongyrchol i'r Cyngor Sir.

   **12. a Troedffordd Ysgol Felinfach. (666461)** Derbyniwyd neges gan Adran y Priffyrdd yn nodi bod y gorchudd ar y llwybr troed yn ddyluniad cynaliadwy i'r gwrychoedd a'r coed presennol ac yn ôl llenyddiaeth y gwneuthurwr bod y cynnyrch yn addas ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn.

   **12.c. Bont Glanafon. (666358)** Neges wrth Jonathan Hughes Technegydd yn Adran y Priffyrdd. Cynhaliwyd arolwg o'r bont ym mis Mai 2024 a ni chodwyd unrhyw bryderon am ddiogelwch y bont. Mae angen trasho ac ychydig o waith cynnal a chadw ar y wal a bydd rhain yn cael eu hychwanegu at yr amserlen waith.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

   Y Cyng. Ceris Jones ar gyfnod mamolaeth.

7. **CYLLID**

a. Tal y Clerc mis Medi **£**217.84
b. Ffî blynyddol i'r ICO £40.00
c. Tâl Stuart Akkermans £250.00
d. **Adroddiad yr Archwiliwr Allanol.**
Ac eithrio'r materion a adroddwyd yn y Sail ar Amod nid oedd unrhyw faterion wedi codi i roi achos i bryderu, mewn unrhyw o'r hyn a gyflywynwyd yn y Ffurflen Flynyddol am 2023-24.
Trafodwyd y pwyntiau a godwyd yn yr amodau sef:
**Datganiad Cyfrifeg**. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfrifo croniadol ond wedi cofnodi derbynebauTAW fel incwm. Rydym yn argymell bod y Cyngor yn cyfeirio at y Canllaw i Ymarferwyr i gael arweiniad ar baratoi cyfrifon.
**Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan**. Tra bod yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol, nid yw'n cyhoeddi cofrestr o ddiddordebau'r aelodau.
**Lwfansau aelodau.** Ni wnaeth y Cyngor gasglu'r datganiadau hyn ar gyfer 2023-24. Anfonwyd y ffurflenni at yr Archwilydd yn dilyn derbyn y nodyn hwn gan nodi mai am dystiolaeth fod y Cynghorwyr wedi arwyddo'r ffurflenni a ofynwyd amdano a nid y ffurflenni eu hunain.
Yn dilyn trafodaeth a'r esboniadau a gyflwynwyd gan y Clerc cynigodd y Cyng. Lynford Thomas derbyn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cyng. Glyn Davies a derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am y gwaith o baratoi ar gyfer yr Archwiliad Allanol.

8. **CYNLLUNIO**

I. **A240681Ymgeisydd: EJ Jenkins Podiau Blaenplwyf**. *Y Bwriad: Erection of Ground Mounted PV Panels, EV Charging, Hot Water Storage Tank, PIR LED Street Lighting and associated works***.** Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd** yn unfrydol i gefnogi'r cais. Y Clerc i anfon ebost.

II. **A240696 Ymgeisydd: A Lewis Safle: Land/plot To North Of Trewern Felinfach,** Y Bwriad: Detached residential dwelling with garage and associated works together with the relocation of Northern boundary (infill/Plot 1). Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cefnogi'r cais. Cwblhawyd y ffurflen Datgan Diddordeb gan y Cyng. Alan Henson a'r Cyng. Glyn Davies.

9. **ADRODDIAD PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 25/6/2024**
Mynchwyd y cyfarfod gan y Cyng. Melinda Williams ac Eleri Lewis (Clerc). Ni thrafodwyd y cwestiwn a anfonwyd ymlaen i'r Prif Weithredwr ymlaen llaw.

Dywedodd y byddai'n delio â'r cwestiynau hynny yn y cyfarfod gyda Chynghorau Tref a Chymuned ym mis Tachwedd.
Oherwydd y wasgfa ariannol sydd ar y Cyngor Sir, a rhai gwasanaethau eisoes wedi eu torri (pest control) gofynwyd am gefnogaeth y Cynghorau Tref a Chymuned drwy fabwysiadu rhai o'r gwasanaethau.
Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr am gyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned yn hyn o beth **penderfynwyd** ystyried y posibilrwydd o fabwysiadu'r gwasanaeth torri porfa. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â'r gost a'r trefniadau gweinyddol a fyddai'n gysylltiedig â hyn.

**10. Adroddiad YMGYNGHORIAD I RÔL CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (1/10/2024)**

Mynychwyd gan y Cyng. Melinda Williams. Nodwyd ei bod hi'n ofynnol i gynghorau gynnal cyfarfodydd hybrid. Gan nad oes gan un o'r canolfannau gwasanaeth di-wifr, penderfynwyd trafod y posobilrwydd o gefnogi'r neuaddau gyda chostau gosod a chynnal di-wifr. Gofynwyd i aelodau o'r pwyllgorau neuadd a oedd yn bresennol i drafod y neu cyfarfodydd ac i gael amcangyrfif o gost.

**11. ADRODDIAD CYFARFOD YMGYSYLLTU Â PHOBL HŶN (27/9/2024)**

Cafwydd adroddiad gan y Clerc a soniodd am bwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn y gymuned o ran y gwasanaethau sydd ar gael i bobl hŷn, Mae gan bob Awdurdod Arweinydd Pobl Hŷn a Cheredigion wedi lansio y gwasanaeth hwn – Ceredigion Oed Gyfeillgar – ar 30 Medi eleni. Trafodwyd rôl y Cyngor Cymuned yn hyn o beth a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o Age Cymru i ymweld â'r tri phentref i gynnal sesiynau galw-heibio ar gyfer ateb cwestiynau gan y trigolion. Penderfynwyd hefyd y byddai aelod o'r Cyngor yn bresennol i son am waith y Cyngor. Y Clerc i wneud y trefniadau.

**12. DEWIS AELOD O GORFF LLYWODRAETHOL PARHAOL YSGOL DYFFRYN AERON**

Yn dilyn trafodaeth enwebwyd y Cyng. Melinda Williams gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson ac fe'u cefnogwyd yn unfrydol. Y Clerc i gysylltu â'r Sir i gyflwyno'r enw.

**13. GOHEBIAETH**

a. Ymgynghoriad PLANED Pryd ar Glud. Dosbarthwyd taflenni.
b. Cyfarfod Cyngor Sir Ceredigion 27/11/24 Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn mynychu'r cyfarfod.
c. Derbyniwyd cerdyn o ddiolch am y rhodd o £25.00 gan Cronfa Cyfle I Bawb Urdd Gobaith Cymru

**14. UNRHYW FATER ARALL**

I. **Bws Cymunedol.** Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Cribyn ar y 3ydd o Hydref. Gan fod cymaint o ddiddordeb penderfynwyd cynnal cyfarfod arall ar y 10fed i roi cynllun ar waith a'i drosglwyddo i Dolen Teifi i baratoi amserlen. Estynwyd croeso i bentrefi eraill i ymuno yn y sgwrs gan y Cyng. Alan Henson.

II. **Bore Coffi.** Cyhoeddodd y Cyng**.** Alan Henson y bydd bore coffi yn cael ei gynnal yn Ysgol Cribyn bob bore dydd Mawrth am 10.00. Mae croeso cynnes i bawb o bob ardal.

## 15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

**Tachwedd 12fed Ysgol Cribyn**